YDCW
CPRW

Diogelu Cymru Wledig
Protecting Rural Wales

# Diogelu Cefn Gwlad Cymru

## Maniffesto YDCW ar gyfer Etholiadau Senedd 2026



## Gyda'n gilydd, ni yw cefn gwlad Cymru.
Gadewch i'ch cariad tuag ato barhau i fyw.

Wrth i Gymru agosáu at etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026, mae'r Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig (YDCW) yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer dyfodol ein cefn gwlad, ei chymunedau, ei thirweddau a'r amgylchedd naturiol. Mae'r maniffesto hwn yn dwyn sylw at y camau gweithredu brys sydd eu hangen i ddiogelu treftadaeth naturiol Cymru wrth gefnogi cymunedau cynaliadwy ac economi wydn.



**Rhoi Hwb i Solar ar ben Toeon**

Rhaglen Ledled y Wlad



**Ynni Solar a Gwynt ar y Môr**

Ynni Adnewyddadwy erbyn 2030



**Claddu Llinellau Pŵer**

Ceblau Nid Peilonau



**Cefnogi Ynni'r Llanw**

Harneisio Ynni'r Llanw



**Mynd i'r Afael â Llygredd Dŵr**

Glanhau ein Hafonydd a'n Moroedd



**Ariannu Llwybrau Troed**

Llwybrau i Bawb



**Ehangu Ardaloedd Gwarchodedig**

Gan 30% Erbyn Targed 2030



**Comisiynydd Natur a Hinsawdd**

Hyrwyddwr Amgylcheddol

## Manifffesto YDCW ar gyfer Etholiadau'r Senedd
Mai 2026

Mae gan Gymru amrywiaeth ddisglair o dirweddau sy'n cysylltu ein hardaloedd trefol â chefn gwlad ac arfordiroedd, gan ddarparu amgylchedd meithringar i'n pobl a'u diwylliant, yn ogystal ag ased cenedlaethol helaeth sy'n denu miliynau o ymwelwyr.

Mae ffermio yn dal i fod yn asgwrn cefn ein cymunedau gwledig, ochr yn ochr â diwydiannau mwy newydd fel twristiaeth ac ynni adnewyddadwy. Mae ein rhwydwaith enwog o lwybrau troed yn amgylchynu'r wlad ac wedi'i ehangu'n helaeth. Mae diogelu, yn ogystal â mwynhau, ein hamgylchedd amhrisiadwy wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth allweddol i Lywodraethau Cymru olynol, yn enwedig oherwydd y cafodd y rhan fwyaf o'r pwerau cyfreithiol i warchod ein natur a'n tirweddau eu datganoli dros 30 mlynedd yn ôl.

Fodd bynnag, mae'r gwirionedd ar lawr gwlad yn pryderu nifer cynyddol o bleidleiswyr yng Nghymru – yn enwedig effeithiau newid yn yr hinsawdd sy'n cyflymu, dinistrio tirweddau lleol hardd yn ddiangen, llygredd ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol, a'r argyfwng parhaus sy'n wynebu ein hanifeiliaid gwyllt a'n planhigion wrth ymdopi â newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

## Maniffesto YDCW ar gyfer Etholiadau'r Senedd
Mai 2026

Dyna pam mae aelodau YDCW, gwirfoddolwyr o gymunedau ledled Cymru yn bennaf, wedi dwysau eu hymdrechion i warchod cefn gwlad Cymru er budd ein holl bobl – amcan y credwn y dylai'r holl bleidiau gwleidyddol sy'n ceisio cyfran yn Llywodraeth nesaf Cymru ei rannu. Byddwn yn pasio carreg filltir canmlwyddiant YDCW yn 2028 – hanner ffordd trwy gyfnod y Senedd newydd.

Fel elusen, mae YDCW wedi nodi saith maes allweddol, y manylir arnynt isod, lle credwn fod cynnydd ar gadwraeth cefn gwlad yn arbennig o hanfodol.

Rydym yn gobeithio y gall pleidiau gwleidyddol eu cymeradwyo a, sut bynnag, ceisio tir cyffredin wrth amddiffyn ein gwlad hardd i'n dinasyddion, ein cymdogion ac ar gyfer cenedlaethau i ddod yn unol â'r deddfau uchelgeisiol a basiwyd gan y Senedd un mlynedd ar ddeg yn ôl.  Ond yn anffodus nid yw'r deddfau hyn wedi cael amlygrwydd yn unrhyw un o faniffesto'r Pleidiau.

## Dyma'n 8 Cais i Lywodraeth Nesaf Cymru:



### 1. Rhoi Hwb i Solar ar ben Toeon
Rhaglen Ledled y Wlad

**Lansio rhaglen genedlaethol fawr i gynyddu nifer y paneli solar ar y to ledled Cymru**

Byddai hyn yn canolbwyntio ar dai domestig ac adeiladau cyhoeddus. Byddai'n rhaid newid cymorthdaliadau'r llywodraeth a rheolau cynllunio i ddarparu'r fframwaith cywir o gymhellion.

Mae'n ffordd syml iawn o gynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn ffordd sydd o fudd i holl drigolion Cymru trwy gostau trydan is, ar yr un pryd ag amddiffyn ein tir fferm a'n tirweddau gwledig yn uniongyrchol rhag dinistrio pellach, dibwrpas trwy orsafoedd pŵer solar ar raddfa ddiwydiannol a thyrbinau gwynt enfawr.

Dylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysbytai, fod yn bartneriaid allweddol yn y "chwyldro ar ben toeon". Gall Cymru ddod yn arweinydd byd-eang o ran sicrhau hyn – yn union fel y gwnaeth ugain mlynedd yn ôl ym maes ailgylchu gwastraff.

Targed cynnar fyddai anelu, fel isafswm, i ddyblu nifer y paneli to ym mhob un o bedair blynedd nesaf y Senedd. Gallai hyn fod wrth wraidd strategaethau newydd i hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac ynni sy'n eiddo i'r gymuned.



### 2. Ynni Solar a Gwynt ar y Môr
Ynni Adnewyddadwy erbyn 2030

**Ymrwymo i gynhyrchu'r rhan fwyaf o ynni adnewyddadwy Cymru a ddefnyddir, ac a allforir, yn fewnol erbyn 2030 o dyrbinau gwynt ar y môr a phaneli to**

I bob pwrpas, byddai hyn yn dechrau dileu prosiectau adnewyddadwy newydd mawr yn raddol mewn "ffermydd" gwynt ar y tir a solar cefn gwlad. Byddai caniatâd cynllunio presennol yn gyfyngedig ar amser i gyflymu'r broses hon.

Byddai angen rheolau newydd llym i sicrhau bod cymunedau lleol mewn sefyllfa llawer cryfach a thecach i fynd i'r afael â chynigion rheibus gan ddatblygwyr allanol didrugaredd i sathru'r amgylchedd lleol dan draed a bwlio cynghorau lleol, neu hyd yn oed Gweinidogion, i ganiatáu elw annisgwyl o ffermydd solar neu wynt sy'n gwneud fawr ddim i Gymru neu gymunedau lleol.



## 3. Claddu Llinellau Pŵer

Ceblau Nid Peilonau

**Cyflwyno rheolau newydd ac, os oes angen, deddfau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gladdu ceblau trosglwyddo trydan newydd a dileu hen ragdybiaethau ynghylch defnyddio peilonau fel yr opsiwn cyntaf**

Er ein bod yn derbyn y bydd angen capasiti ychwanegol ar gyfer systemau trosglwyddo a dosbarthu trydan Cymru i ddefnyddio ynni adnewyddadwy, bydd angen y rhan fwyaf ohono i gysylltu'r ffermydd gwynt ar y môr ym Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd â systemau presennol ar y tir.

Dylid defnyddio datblygiadau mewn technoleg fel dargludyddion â chyfradd uwch a chylchedau wedi amrwydo yn hytrach nag adeiladu peilonau sy'n uwch ac yn uwch ar linellau trydan presennol.

Dylid defnyddio ceblau wedi'u claddu ar gyfer unrhyw lwybrau trosglwyddo newydd oni bai bod hyn yn dechnegol amhosibl, ac nid ar sail cost.

Mae'n rhaid tynnu'n ôl cyngor swyddogol presennol ynglŷn â defnyddio peilonau fel dewis cyntaf, a dylai'r Llywodraeth gefnogi canllawiau modern yn lle, fel Llyfr Gwyrdd y Trysorlys, sy'n gwerthfawrogi'r cyfalaf naturiol ym mhob tirwedd.



## 4. Cefnogi Ynni'r Llanw

Harneisio Ynni'r Llanw

**Cefnogi ynni'r llanw fel y trydydd opsiwn hirdymor ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ochr yn ochr â solar ar ben toeon a gwynt ar y môr**

Yng Nghymru mae rhai o'r lleoliadau posibl gorau ar gyfer ynni'r llanw yn y DU, yn enwedig Aber Hafren a môr-lynnoedd llanw yng Ngogledd a De Cymru.

Costau fu'r prif reswm pam nad oes unrhyw gynlluniau llanw wedi'u hadeiladu yng Nghymru eto.

Mae YDCW yn cefnogi'r cynigion ar gyfer datblygiad morlyn llanw yn Abertawe / Port Talbot ac yn credu y dylai Llywodraeth nesaf Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU, gomisiynu astudiaeth effaith economaidd ac amgylcheddol hirdymor o'r opsiynau ar gyfer Aber Afon Hafren.



## 5. Comisiynydd Natur a Hinsawdd

Hyrwyddwr Amgylcheddol

**Penodi Comisiynydd Cymru dros Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd ("Comisiynydd NNH") fel swydd allweddol o fewn Swyddfa newydd Diogelu'r Amgylchedd sydd i'w sefydlu gan Fil Amgylchedd y Senedd sydd bellach yn ei gamau olaf, a fydd yn dod yn gyfraith cyn etholiadau mis Mai**

Byddai cyfrifoldebau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn yr ystod eang o ddyletswyddau a neilltuwyd i'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiynydd newydd, gan adael y Comisiynydd CD i ganolbwyntio ar iechyd, cydraddoldeb, tai, diwylliant a chymunedau.

Dylai Comisiynydd NNH gael ei benodi gan Brif Weinidog Llywodraeth Cymru â chaniatâd penodol y Senedd, a meddu ar ddyletswydd statudol i gynghori pob corff cyhoeddus, yn ogystal â phwerau dewis olaf i ymyrryd mewn achosion penodol (e.e. i atal datblygiadau mawr a fyddai'n niweidio'r amgylchedd am gyfnod penodol o ailystyried).



## 6. Ehangu Ardaloedd Gwarchodedig

Gan 30% Erbyn Targed 2030

**Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael adnoddau, a chyfarwyddyd Gweinidogol, i lansio rhaglenni wedi'u hadfywio a'u hail-flaenoriaethu i gynyddu arwynebedd ardaloedd gwarchodedig yng Nghymru i gyrraedd y targed o 30% a osodwyd eisoes gan y DU ar gyfer 2030 / rhagori ar y targed hwn – h.y. erbyn diwedd cyfnod nesaf y Senedd**

Yn benodol, mae'n rhaid agor y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn ddi-ffael erbyn 1 Ebrill 2028 fan bellaf.

Mae'n rhaid cael cynnydd diriaethol tuag at Goedwig Genedlaethol Cymru a addawyd. Dylid llunio dynodiadau gwarchodedig cryf ar gyfer Coedwig Maesyfed, Mynyddoedd Cambria ac ardaloedd unigryw fel Gwastadeddau Gwent.

Dylai prosiectau traffordd hen ffasiwn, wrthun o ddrud sy'n llygru, a wrthodwyd yn gyfiawn gan gymunedau lleol a Gweinidogion ar ôl ymgynghoriadau ac ymgyrchu dwys, barhau i gael eu cadw yn y bin gwastraff.

Yn hytrach, dylem ddefnyddio arian trethdalwyr i gefnogi polisïau newydd sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd ar gyfer trafnidiaeth, a dechrau trwy adeiladu'r gorsafoedd rheilffordd newydd yn Ne Ddwyrain Cymru a addawyd ond nad ydynt wedi'u cyflawni hyd yma gan Lywodraeth bresennol Cymru. Dylai cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus newydd rhwng gogledd a de Cymru fod yn flaenoriaeth hefyd.



## 7. Ariannu Llwybrau Troed

Llwybrau i Bawb

**Mynediad i Gefn Gwlad a Natur - dylai Llywodraeth Cymru greu Cronfa arbennig, wedi'i chlustnodi, ar gyfer Llwybrau Troed**

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n dyrannu'r gronfa newydd hon i Gynghorau lleol, a'i neilltuo ar gyfer cynnal a chadw llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau sy'n dirywio ledled Cymru yn unig.

Mae'n annerbyniol bod hanner ein hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u rhwystro ar hyn o bryd neu heb arwyddion.

Byddai hyn yn gam cyntaf tuag at ddeddfwriaeth Hawliau Tramwy fodern i Gymru, er mwyn darparu gwell mynediad i'n holl bobl at fyd natur, gan gynnwys yn ardal eu cartref.



## 8. Mynd i'r Afael â Llygredd Dŵr

Glanhau ein Hafonydd a'n Moroedd

**Cymryd camau diriaethol i achub ein hafonydd a'n moroedd rhag llygredd, gan gynnwys targedau cyfreithiol sy'n rhwymol i lanhau afonydd, llynnoedd, nentydd a thraethau**

Mae YDCW yn chwilio am ddull cyfannol o ymdrin â llygredd afonydd, aberoedd, rhwng llanw a morol. Mae newidiadau mewn amaethyddiaeth a phwysau cynyddol gan y sectorau domestig a diwydiannol wedi cynyddu allyriadau, elifion, erydiad a diraddio amgylcheddol.

Mae'r data'n datgelu mai yng Nghymru mae'r llygredd carthion gwaethaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r tair etholaeth waethaf Top of the Poops yng Nghymru - Ceredigion Preseli, Caerfyrddin a Dwyfor Meirionnydd. Mae ffigurau CNC yn parhau i ddangos bod y rhan fwyaf o'r darnau mwyaf gwarchodedig o'n hafonydd yn methu hefyd.

Ymddengys nad oes llawer o gynnydd wedi bod. Dylai pob cyfrannwr at lygredd ddod yn rhanddeiliaid mewn sicrhau gwelliannau trwy gonsensws, gan ddefnyddio dulliau cydweithredol ochr yn ochr â rheoleiddio, monitro a gorfodi.

Dylai tasglu cynhwysol yng Nghymru ar lygredd dŵr croyw a morol harneisio'r holl arbenigedd sydd ar gael, gan gynnwys y wyddoniaeth orau, i lunio cynllun gweithredu â thargedau penodol.



**Gyda'n gilydd, ni yw cefn gwlad Cymru.**
Gadewch i'ch cariad tuag ato barhau i fyw.

Mae YDCW yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn etholiadau 2026 y Senedd i ymrwymo i'r blaenoriaethau ymarferol a chyflawnadwy hyn. Trwy weithio â'n gilydd, gall Cymru arwain y ffordd o ran gwarchod tirweddau, adfer natur a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu cefn gwlad sy'n iach, yn wydn ac yn hygyrch i bawb.

**www.cprw.org.uk**

Tŷ Gwyn, 31 Y Stryd Fawr, Y Trallwng, Powys, SY21 7YD
Tŷ Gwyn, 31 High Street, Welshpool, Powys, SY21 7YD

ELUSEN GOFRESTREDIG | REGISTERED CHARITY 239899